| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Ebrill 2024 |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Barry Mellor (Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant) / Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes ac Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol- Perfformiad, Digidol ac Asedau) |
| **Awdur yr Adroddiad** | Liz Wilcox-Jones (Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd Dros Dro) |
| **Teitl** | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd: Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22 – 2029/30) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- Perfformiad dangosydd perfformiad allweddol diweddaraf y Cyngor (2022/23) a'r cyfeiriad o ran dod yn Gyngor Di-garbon Net, Cyngor Ecolegol Gadarnhaol a lleihau Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi 35% erbyn 2030.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor am gynnydd y Cyngor o ran dod yn Gyngor Di-garbon Net, Cyngor Ecolegol Gadarnhaol a lleihau Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi 35% erbyn 2030.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad dangosydd perfformiad allweddol y Cyngor ar gyfer 2022/23 a'r cyfeiriad o ran dod yn Gyngor Di-garbon Net, Cyngor Ecolegol Gadarnhaol a lleihau Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi 35% erbyn 2030.

3.2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r ymgynghoriad yn niweddariad blwyddyn 3 y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a llywodraethu ar gyfer ei mabwysiadu.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Bu i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019, gan ymrwymo i ddod yn Gyngor Di-garbon Net erbyn 2030 ar y cynharaf a gwella bioamrywiaeth ar draws y Sir ymysg pethau eraill. Yn dilyn hynny, mabwysiadwyd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22-2029/30) ym mis Chwefror 2021, sy'n ymrwymo'r Cyngor i ddod yn Gyngor Di-garbon Net a Chyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, yn ogystal â lleihau allyriadau carbon o'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu (cadwyn gyflenwi'r Cyngor) 35% erbyn 2030. Gwnaeth y Cyngor hefyd addasu ei Gyfansoddiad ym mis Hydref 2020, fel bod yn rhaid i bob penderfyniad gan y Cyngor 'roi ystyriaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol'.

4.2 Bydd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22–2029/30) yn cael ei hadolygu a'i diweddaru bob 3 blynedd. Cafodd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ei hadolygu a'i diweddaru am y tro cyntaf yn 2023/24 a chwblhawyd y canlynol fel rhan o'r gwaith adolygu a diweddaru:

1. Lansio dull gweithredu a chytuno ar baramedrau ar gyfer y gwaith gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2023.
2. Cynhaliwyd arolwg ar-lein cyhoeddus rhwng 18 Mai a 2 Gorffennaf 2023 ac fe gynhaliwyd gweithdy wyneb yn wyneb i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2023.
3. Cynhaliwyd gweithdai penodol i'r gwasanaeth ar gyfer pob maes gwasanaeth ym mis Tachwedd 2023.
4. Cafwyd ymgysylltiad drwy gydol y broses â'r Bwrdd Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd a gweithgor gwleidyddol trawsbleidiol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid

Ecolegol, gan gynnwys yr adolygiad o ddrafft blwyddyn 3 wedi'i adolygu a'i diwygio, yn y cyfarfodydd ar 21 Chwefror a 1 Mawrth yn y drefn honno.

5. Cafwyd ymgysylltiad drwy gydol y broses â'r Aelod Arweiniol (Barry Mellor) ac Arweinydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol/ Noddwr y Rhaglen (Gary Williams).
6. Fe ymgysylltwyd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Canol a Swyddogion Allweddol yn y Cyngor, a chafodd y camau gweithredu yn y drafft eu cadarnhau.
7. Dosbarthu'r drafft sydd wedi'i adolygu a'i ddiwygio ar gyfer blwyddyn 3 yng nghyfarfod y Tîm Arwain Strategol ar 8 Chwefror a chyfarfod Briffio'r Cabinet ar 4 Mawrth.

4.3 Mae'r ddogfen Strategaeth ddrafft ddiwygiedig ar gyfer blwyddyn 3 yn destun ymgynghoriad terfynol ar hyn o bryd a gellir ei gweld yma. Mae'r ymgynghoriad ar agor am 8 wythnos, rhwng dydd Llun 25 Mawrth a dydd Llun 20 Mai. Mae'r Strategaeth ddrafft yn cael ei thrafod yn holl Grwpiau Ardal yr Aelodau yn ystod mis Ebrill a mis Mai, a dyma'r broses ar gyfer cymeradwyo'r Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer blwyddyn 3 yn derfynol:

1. Briffio'r Cabinet - 3 Mehefin
2. Craffu Perfformiad - 6 Mehefin
3. Y Cabinet - 25 Mehefin
4. Y Cyngor - 9 Gorffennaf

4.4 Mae yna nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu defnyddio i farnu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei nodau ar gyfer 2030, gan gynnwys: lleihau'r allyriadau carbon mae'r Cyngor yn eu rhyddhau o ffynonellau amrywiol, cynyddu faint o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli a chynyddu cyfoeth y rhywogaethau ar y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli. Mae adroddiad perfformiad 2022/23 ar gyfer y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol i'w weld yn Atodiad 1. Er ein bod ar y trywydd cywir, nid yw'r cyflymder ar hyn o bryd yn dangos bod digon o gynnydd yn cael ei wneud er mwyn bodloni'r nod o fod yn Gyngor Di-garbon Net erbyn 2030. Rydym wedi gosod uchelgeisiau mawr ar gyfer cyfradd y cynnydd ac felly mae'r statws wedi'i newid o "Dda" i "Flaenoriaeth ar gyfer Gwella" ar gyfer 2022/23. Mae stori'r data yn fwy cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth ac mae cynnydd "Derbyniol" yn cael ei wneud er mwyn bodloni nod y Cyngor o ddod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. Mae statws y gadwyn gyflenwi ar gyfer 2022/23 yn

parhau fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' gan fod allyriadau carbon yn y maes hwn yn parhau i gynyddu o gymharu â'r waelodlin. Fodd bynnag, oherwydd y fethodoleg bresennol, mae'n anodd mesur gostyngiad yn allyriadau'r gadwyn gyflenwi ac mae'n debyg y bydd rhaid cyfrifo allyriadau'n well er mwyn sicrhau unrhyw newid sylweddol mewn perfformiad yn y data.

4.5 Mae'r data diweddaraf ar gyfer y flwyddyn 2022/23 a chafodd elfennau o'r data hwn eu cynnwys yn Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2022/23, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 4 Gorffennaf. Cyflwynir ein data allyriadau i Lywodraeth Cymru ym mis Medi bob blwyddyn a chaiff ein data ar gyfer 2022/23 ei gyflwyno erbyn 4 Medi 2023.

4.6 Mewn perthynas â'r allyriadau a'r carbon sy'n cael ei ddal a'i storio sy'n cyfrannu at y targed Di-garbon Net, mae disgwyl y bydd cyfleoedd i gyflymu'r broses drwy ffynonellau allyriadau/ dal a storio carbon, ond mae llai o hyder o ran cyflawni canran y lleihad/ cynnydd erbyn 2030 mewn meysydd eraill, gan gynnwys: adeiladau, staff yn cymudo, dal a storio carbon a'r gadwyn gyflenwi. Mae hyn wedi'i nodi'n glir yn adolygiad y strategaeth. Gweler tudalen 23 a'r adran 'Ble rydym eisiau ei gyrraedd?' yn y Strategaeth ddiwygiedig ddrafft ar gyfer blwyddyn 3 i gael rhagor o wybodaeth. Bydd y pwysau ariannol y mae bob awdurdod lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd a dros y blynyddoedd i ddod yn cael effaith bellach ar gyflymder y datblygiadau. Rydym yn bwriadu cynnal ein huchelgais o ran Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, a pheidio ag addasu targedau, er bod hynny'n profi'n her, wrth i ni symud ymlaen i 3 blynedd nesaf ein strategaeth gyda'r adnoddau sydd ar gael.

4.7 Cyflawnir y prosiectau cyfalaf a refeniw bob blwyddyn drwy'r rhaglen er mwyn sicrhau'r newid sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd ein nodau, a bod meysydd gwasanaeth yn bwrw ymlaen â'r 37 newid o ran polisïau/ prosesau a'r 75 gweithgaredd y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w cyflawni o fewn y Strategaeth ac sydd wedi'u rhestru yng Nghynlluniau Busnes unigol gwasanaethau. Gofynnir am y wybodaeth ddiweddaraf am statws cynnydd Cynlluniau Busnes y Gwasanaethau bob chwarter gan y Tîm Cynllunio Strategol, ac maent yn cynnwys gweithgareddau'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

4.7 Er gwaethaf y cyflymder cyflawni a nodwyd yn y data, mae swyddogion yn parhau i wneud gwaith gwych o ran y rhaglen newid hinsawdd a newid ecolegol. Mae'r newyddlen ddiweddaraf i'w gweld yn Atodiad 2, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a gynhelir ar gael ar wefan y Cyngor, drwy fynd i'r adran newyddion a

chwilio am “Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol”. Bydd newyddlen arall gyda chrynodeb yn cael ei llunio ym mis Mai 2024.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae cyflawni’r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn cyfrannu’n uniongyrchol at wireddu rhan o ddatganiad Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor, a oedd yn ymrwymo i fod yn Gyngor Di-garbon Net erbyn 2030, yn ogystal â gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych. Mae’n cefnogi’r Cyngor i gyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru, sef bod y sector cyhoeddus yn niwtral o ran carbon erbyn 2030 a bod Cymru yn bodloni ei tharged cyfreithiol o leihau allyriadau i Sero Net erbyn 2050 ac yn cynyddu gwytnwch ecosystemau fel y’u rhestrir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae’n cyfrannu at gyflawni themâu ac addewidion y Cynllun Corfforaethol newydd (2022-2027), ac yn benodol Cysylltu Cymunedau a Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau’n codi’n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Nid oedd angen rhai ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oedd ei angen ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes yna unrhyw risgiau ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad.